CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	11 Chwefror 2019
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awduron yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor.	

1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 19 Ionawr 2020 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio mewnol a gyhoeddwyd ers 10 Tachwedd 2019
- Gwaith dilyn i fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol
- Mynd i'r Afael â 'Materion/Risgiau'
- Cynnydd o ran Darparu'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2019/20

2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Hefyd gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

CHWEFROR 2020

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNNWYS

ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL A GYFLWYNWYD ____ 3

Rheoli Risgiau Brexit ____ 3

Cynllunio Parhad Busnes ____ 4

ADRODDIADAU DILYN I FYNY ARCHWILIO MEWNOL ____ 5

Taliadau Uniongyrchol – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf ____ 5

Gwiriad o Drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf ____ 6

Adolygiad o Lywodraethiant yn Ysgol Kingsland – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf ____ 6

Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf ____ 7

Gwaith Dilyn i Fyny sy'n mynd rhagddo ____ 7

Gwaith Dilyn i Fyny sydd ar y gweill ____ 8

MYND I'R AFAEL Â 'MATERION/RISGIAU' ____ 9

CYNNYDD O RAN CYFLAWNI'R CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20 ____ 10

ATODIAD A – CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20 ____ 11

ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL A GYFLWYNWYD

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y raddfa sicrwydd a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Mae aelodau'r pwyllgor a'r deilydd portffolio perthnasol wedi derbyn copïau llawn o'r adroddiadau ar wahân.

3. Rydym wedi cwblhau **dau** adroddiad yn y cyfnod dan sylw, a gwelir crynodeb ohonynt isod:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Rhesymol	Cyfanswm
Rheoli Risgiau Brexit	Sicrwydd Rhesymol	0	0	0	0
Cynllunio Parhad Busnes	Sicrwydd Rhesymol	0	3	1	4

Rheoli Risgiau Brexit

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	0	Rhesymol

4. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   A oes gan y Cyngor systemau cadarn yn eu lle er mwyn gallu ymateb i'r DU yn gadael yr UE (Brexit) fel y gall y Cyngor liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

5. Yn gyffredinol, daw ein hadolygiad i'r casgliad bod gan y cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i nodi, asesu a rheoli'r risgiau posib sy'n gysylltiedig â'r DU yn gadael yr UE.

6. O'r herwydd rydym yn gallu darparu sicrwydd **'Rhesymol'** ynghylch llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli yn y maes hwn. Ni chodwyd unrhyw 'Faterion/Risgiau' er sylw rheolwyr.

Cynllunio Parhad Busnes

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	3	Sylweddol
	1	Rhesymol

7. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol:

   A oes gan y Cyngor systemau cadarn yn eu lle er mwyn gallu ymateb i argyfyngau a/neu amhariad er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol?

8. Er ein bod wedi nodi rhai meysydd i'w gwella o fewn fframwaith parhad busnes cyffredinol y cyngor, daw ein hadolygiad i'r casgliad bod y cyngor, ar y cyfan, yn rheoli'r risg yn y maes hwn yn dda, a bod nifer o fesurau rheoli effeithiol mewn lle i sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol yn dilyn digwyddiad mawr neu argyfwng.

9. Rydym wedi codi pedwar o faterion/risgiau y mae angen i reolwyr fynd i'r afael â nhw. Oherwydd effaith bosib y risg yn y maes hwn, mae tri ohonynt wedi cael eu dynodi yn rhai 'Sylweddol'. Fodd bynnag, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan ac, o'r herwydd, gallwn ddarparu sicrwydd **'Rhesymol'** ynghylch llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli yn y maes hwn.

ADRODDIADAU DILYN I FYNY ARCHWILIO MEWNOL

10. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny adroddiadau gyda graddfa sicrwydd o 'Cyfyngedig' neu is ac adroddiadau eraill yr ydym yn dymuno eu monitro wrth symud ymlaen.

11. Rydym wedi cwblhau pedwar adolygiad dilyn i fyny yn y cyfnod hwn, gyda'r canlyniadau canlynol. Gellir gweld mwy o fanylion am y gwaith a wnaethpwyd isod:

Teitl yr Archwiliad	Adolygiad	Dyddiad Cwblhau	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Rhesymol	Cyfanswm
Taliadau Uniongyrchol	Dilyn i Fyny am y tro cyntaf	Rhagfyr 2019	**Rhesymol**	0	0	3	3
Gwiriad o Drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion	Dilyn i Fyny am y tro cyntaf	Ionawr 2020	**Rhesymol**	0	0	10	10
Adolygiad o Lywodraethiant yn Ysgol Kingsland	Dilyn i Fyny am y tro cyntaf	Ionawr 2020	**Sylweddol**	0	0	1	1
Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm	Dilyn i Fyny am y tro cyntaf	Ionawr 2020	**Cyfyngedig**	0	2	0	2

Taliadau Uniongyrchol – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf

Adroddiad Gwreiddiol			Adroddiad Presennol		
Sicrwydd Cyfyngedig	Materion/Risgiau		Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol		0	Critigol
	0	Sylweddol		0	Sylweddol
	5	Rhesymol		3	Rhesymol

12. Cynhaliom adolygiad o Daliadau Uniongyrchol a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2019. Codwyd pump o 'Faterion/Risgiau' gennym a rhoddwyd 'Sicrwydd Cyfyngedig'.

13. Daeth ein hadolygiad dilyn i fyny ym mis Tachwedd 2019 i'r casgliad bod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â dau o'r 'materion/risgiau' a godwyd yn yr adroddiad gwreiddiol.

14. Mae tri o 'faterion/risgiau' yn parhau heb eu datrys ond maent yn derbyn sylw; cynlluniau gofal a chymorth wedi eu diweddaru, adolygiad amserol o becynnau gofal a chymorth taliadau uniongyrchol, a thystiolaeth o gydsyniad i drefniadau cynllun gofal a chymorth. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod y gwasanaeth wedi gwella o ran lefel cydymffurfiaeth a / neu wedi gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r materion/risgiau hyn.

15. Mae'r gwasanaeth wedi rhoi sylw bwriadus i sicrhau bod cofnodion cyson a chywir yn cael eu cadw ac i gynyddu'r defnydd o rybuddion a hysbysiadau ar y system. Adroddodd y gwasanaeth bod angen gwneud mwy o waith i wreiddio ac ymestyn y system yn llawn er mwyn rheoli achosion a llif gwaith yn well ac i wneud gwelliannau pellach o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau a gwella gwasanaeth.

16. Lle mae gwaith yn mynd rhagddo a lle mae'r gwaith hwnnw wedi lleihau'r tebygrwydd o risg, rydym wedi adlewyrchu hynny yn y raddfa risg. O'r herwydd roeddem yn gallu cynyddu'r sicrwydd i **'Rhesymol'**.

Gwiriad o Drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf

Adroddiad Gwreiddiol			Adroddiad Presennol		
Amherthnasol	Materion/Risgiau		Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	d/b	Critigol		0	Critigol
	d/b	Sylweddol		0	Sylweddol
	d/b	Rhesymol		10	Rhesymol

17. Ym mis Mehefin 2019, comisiynwyd Strategic Risk Parctice, Zurich Risk Engineering i gynnal archwiliad o lywodraethu gwybodaeth a gwreiddio gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd ar draws holl ysgolion yr ynys.

18. Nododd adolygiad Zurich Municipal 11 o feysydd yr oedd angen gweithredu arnynt a rhoddwyd graddfa 'Uchel' i ddau ohonynt, 'Canolig' i wyth ac 'Isel' i un. Nid oedd y graddfeydd hyn yn cyd-fynd â'n graddfeydd ni ac felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

19. Penododd y Gwasanaeth Dysgu Swyddog Diogelu Data Ysgolion ym mis Awst 2019 ac mae'n cymryd camau pendant i roi sylw i'r 10 maes gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw ac yr ydym wedi rhoi graddfa risg 'cymedrol' iddynt. Yn dilyn penodi'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, gallwn roi sicrwydd **'Rhesymol'** ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheoli GDPR mewn ysgolion.

Adolygiad o Lywodraethiant yn Ysgol Kingsland – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf

Adroddiad Gwreiddiol			Adroddiad Presennol		
Amherthnasol	Materion/Risgiau		Sicrwydd Sylweddol	Materion/Risgiau	
	d/b	Critigol		0	Critigol
	d/b	Sylweddol		0	Sylweddol
	d/b	Rhesymol		1	Rhesymol

20. Cynhaliom adolygiad o lywodraethiant yn ystod 2018/19 yn dilyn derbyn cwyn ynghylch y berthynas rhwng Ysgol Kingsland a Caban Kingsland Ltd. Canfu'r adolygiad nad oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb, bod cofnodion papur yn wael a bod y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â rhedeg yr ysgol a Chronfa'r Ysgol yn wan.

21. O'r wyth argymhelliad a wnaed, mae'r ysgol wedi gweithredu pedwar ac wedi gweithredu tri argymhelliad yn rhannol. Ni wnaethom adolygu un o'r argymhellion oherwydd ei fod yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Dysgu a byddwn yn ei adolygu fel rhan o'r archwiliad i Reoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion. O'r herwydd, rydym o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion. O ganlyniad, gallwn roi sicrwydd **'Sylweddol'** ynghylch llywodraethiant yn y maes hwn.

Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm – Dilyn i Fyny am y tro cyntaf

Adroddiad Gwreiddiol			Adroddiad Presennol		
Sicrwydd Cyfyngedig	Materion/Risgiau		Sicrwydd Cyfyngedig	Materion/Risgiau	
	0	Critigol		0	Critigol
	2	Sylweddol		2	Sylweddol
	1	Rhesymol		0	Rhesymol

22. Cynhaliom adolygiad o Gasglu Incwm mewn Ysgolion Cynradd yn 2018/19 a chyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Hydref 2018. Arweiniodd hyn at raddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig', a chodwyd tri o faterion/risgiau a chytunwyd ar nifer o gamau i fynd i'r afael â nhw.

23. Canfu ein hadolygiad dilyn i fyny, er bod llawer o waith wedi digwydd a bod cynnydd wedi digwydd o ran mynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn wreiddiol, mewn nifer o achosion nid oedd y gwaith yn ddigonol i roi sylw llawn i'r mater/risg. Nid oedd yr amserlenni arfaethedig gwreiddiol ar gyfer rhai o'r camau i'w cymryd gan reolwyr yn realistig, o ystyried nifer yr adrannau a'r gwaith oedd ynghlwm. Mae hyn, yn ogystal â materion ynghylch staffio ar draws nifer o adrannau, yn golygu bod nifer o'r camau hyn yn parhau i fod angen sylw. Yn ogystal, bydd angen i'r Uwch Reolwr Cynradd newydd gymeradwyo'r broses newydd ac nid yw'r Gwasanaeth Dysgu wedi penodi neb i'r swydd hon eto.

24. Wrth gynnal ein hadolygiad dilyn i fyny, daethom i'r casgliad na fyddai rhai o'r camau i reolwyr a argymhellwyd yn wreiddiol, hyd yn oed petaent yn cael eu gweithredu'n llawn, yn mynd i'r afael yn llwyr â'r mater/risg a godwyd. O'r herwydd, rydym wedi cael trafodaeth gyda rheolwyr ac wedi cytuno ar gamau pellach er mwyn mynd i'r afael yn llawn a'r mater/risg a godwyd.

25. O ganlyniad, mae'r raddfa sicrwydd yn parhau i fod yn **'Gyfyngedig'**. Felly, byddwn yn ailymweld â'r cynllun gweithredu ym mis Medi 2020.

26. Yn unol â'n protocol o gyhoeddi adroddiadau llawn ar gyfer graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig' i aelodau'r Pwyllgor, mae manylion y 'Materion/Risgiau' a'r camau arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â nhw wedi ei gynnwys mewn adroddiad ar wahân.

Gwaith Dilyn i Fyny sy'n mynd rhagddo

27. Nid ydym yn gweithio ar unrhyw adroddiadau dilyn i fyny gyda graddfa **'Sicrwydd Cyfyngedig'**.

Gwaith Dilyn i Fyny sydd ar y gweill

28. Ar hyn o bryd, mae gennym **dri** adroddiad dilyn i fyny wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Efallai yr ychwanegir at y rhain gan ddibynnu ar yr adolygiadau y byddwn yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn:

Teitl yr Archwiliad	Adolygiad	Dyddiad Dilyn i Fyny	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Rhesymol	Cyfanswm
Rheoliadau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau	Pedwerydd Adroddiad Dilyn i Fyny	~~Gorff 19~~ Ebrill 2020[1]	**Cyfyngedig**	0	3	2	5
Mân Ddyledwyr	Trydydd Adroddiad Dilyn i Fyny	Mai 2020	**Rhesymol**	0	1	7	8
Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm	Ail Adroddiad Dilyn i Fyny	Medi 2020	**Cyfyngedig**	0	2	0	2

[1] Mae'r camau i reolwyr i fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' a godwyd yn yr adolygiad Rheoliadau Systemau - Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau yn ddibynnol ar ailstrwythuro'r swyddogaeth Cyflogres/Taliadau sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2020.

MYND I'R AFAEL Â 'MATERION/RISGIAU'

29. Nid oes unrhyw 'faterion/risgiau' Uchel neu Goch heb eu datrys ar hyn o bryd, a gall y Pwyllgor gymryd sicrwydd o hynny. Yn ogystal, ym mhob cyfarfod yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi adrodd ar welliant parhaus y cyngor wrth fynd i'r afael â 'materion/risgiau' sydd heb eu datrys, ac ym mis Rhagfyr 2019 roedd y ganran weithredu gyffredinol ar gyfer 'materion/risgiau' Uchel/Coch/Ambr yn 94%.

30. Mae cynnydd o ran gweithredu'r fersiwn newydd, wedi'i huwchraddio o'r system tracio camau gweithredu yn symud yn gyflym wedi i broblem cyfluniad TG gael ei ddatrys. Erbyn hyn, rydym wedi cwblhau'r gwaith o lanhau data tua 200+ o gofnodion hanesyddol ac mae'r darparwr meddalwedd yn mudo gweddill y data i'r system newydd, wedi'i huwchraddio.

31. Hefyd yn ddiweddar, rydym wedi cyfarfod â darparwr y meddalwedd er mwyn ail-gyflunio'r system newydd i fanteisio ar ei swyddogaethau ychwanegol, ac i ysgrifennu cyfres o adroddiadau perfformiad fydd yn ein cynorthwyo ni, a rheolwyr, i fonitro'r 'materion/risgiau' sydd angen eu datrys. Bydd dangosfwrdd y system yn cynnwys rhyngwyneb (widget) i alluogi rheolwyr i arddangos cip-ddarlun o'r wybodaeth sydd fwyaf defnyddiol iddynt. Byddwn yn gweithio gyda rheolwyr i arsefydlu'r rhyngwyneb ar eu cyfer.

32. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu rhannu'r adroddiad cyntaf o'r system newydd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf, ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, yn y dyfodol, rydym yn gobeithio gwneud yr adroddiad yn un rhagweithiol, er mwyn cynyddu gwerth y wybodaeth yr ydym yn ei darparu i aelodau'r Pwyllgor hwn.

CYNNYDD O RAN CYFLAWNI'R CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

33. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 yn Atodiad A.

34. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr archwiliadau canlynol:

    - Gwydnwch Ariannol
    - Diwygio Lles – Digartrefedd
    - Proses gweithwyr sy'n gadael
    - Rheoli'r Risg o Dwyll
    - Adennill dyledion

35. Rydym wedi gohirio archwiliad Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion ar gais y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc nes y bydd modd i ni gyfarfod â phenaethiaid yn eu cyfarfodydd clwstwr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, ym mis Ionawr a Chwefror 2020, yn y drefn honno.

36. Rydym wedi cwblhau'r archwiliad Gwydnwch TG, ond rydym yn gweithio gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ddatblygu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r 'Materion / Risgiau' a nodwyd.

37. Llesteiriwyd cynnydd wrth gwblhau archwiliadau o ganlyniad i golli dau aelod o'r tîm, sy'n golygu gostyngiad o 118 diwrnod yn yr adnodd. Diwygiwyd y cynllun i gyd-fynd â hynny ac rydym yn y broses o recriwtio staff ar hyn o bryd.

ATODIAD A – CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
Corfforaethol	Parhad Busnes (YM9)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2	C2	15	15	**Sicrwydd Rhesymol**	**Chwefror 2020 (2019/20)**
Corfforaethol	Diogelu Corfforaethol (YM11)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2	D2	18	18	**Sicrwydd Rhesymol**	**Rhagfyr 2018 (2018/19)**
							Sicrwydd Rhesymol	**Medi 2019 (2019/20)**
	CONTEST (Gwrthderfysgaeth ac Atal Radicaleiddio)[2] (YM11)	Cofrestr Risg Gorfforaethol			0	0	**Sicrwydd Rhesymol**	**Ebrill 2019 (2018/19)**
Corfforaethol	Cynllunio Corfforaethol (YM13)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2	D3	0	0	Wedi'i ddileu	
Corfforaethol	Gwydnwch Ariannol (YM41)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	A1	B2	17	3.25	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed)

[2] Risg 'arunig' yn flaenorol - YM27

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
Corfforaethol	Llywodraethu Gwybodaeth (YM3)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B3	C3	0	0	**Sicrwydd Rhesymol**	**Rhagfyr 2018[3] (2018/19)**
Corfforaethol	Safonau Diogelwch Diwydiant y Cardiau Talu (PCIDSS) (YM34)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D1	D1	7	7	**Sicrwydd Rhesymol**	**Mehefin 2019 (2019/20)**
Corfforaethol	Brexit	Cofrestr Risg Gorfforaethol	A2		10	10	**Sicrwydd Rhesymol**	**Chwefror 2020 (2019/20)**
Corfforaethol	Proses gweithwyr sy'n gadael	Codwyd pryderon			30	21.5	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed)
Corfforaethol	Rheoli Risg	Gofyniad PSIAS			0	0	**Wedi ei reoli**	**Chwefror 2019 (ZRE) (2018/19)**
Corfforaethol	Rheoli'r Risg o Dwyll	Gofyniad PSIAS			20	4	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed)
Corfforaethol	Diwylliant – Gwarchod Enw Da a'r Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol	Sganio'r Gorwel			0	0	Wedi ei ddileu	

[3] Sicrwydd a roddwyd ar gyfer rheoliadau GDPR yn Risg Ambr 'arunig' yn flaenorol (YM31)

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
ADNODDAU								
Adnoddau	Adennill a Dileu Dyledion	System Ariannol Allweddol – Swyddog Adran 151 wedi codi pryderon			20	2.5	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed)
Adnoddau	Caffael Corfforaethol (YM22)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	D2	0	0	**Sicrwydd Rhesymol**	**Rhagfyr 2018 (2018/19)**
Adnoddau	Cardiau Caffael Corfforaethol	Codwyd pryderon			15	0		
Adnoddau	Cyflogres	System ariannol allweddol – ailstrwythuro a system newydd; sicrwydd archwilio allanol			0	0	Gohiriwyd tan 2020/21	
TRAWSNEWID								
TGCh	Archwiliad TG – Diogelwch Seibr (YM28)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B1	C1	0	0	**Sicrwydd Rhesymol**	**Chwefror 2019 (2018/19)**

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
TGCh	Archwiliad TG - Gwydnwch TG (YM38)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1	D2	15	12.75	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed Diwygiedig)
Adnoddau Dynol	Absenoldeb Salwch (YM23)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	A2	D3	0	0	Wedi'i ddileu	
Adnoddau Dynol	Recriwtio a Chadw Staff	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	C2	0	0	**Sicrwydd Rhesymol**	**Ebrill 2019 (2018/19)**
Adnoddau Dynol	Diwylliant y Gweithle – Gwahaniaethu ac Anghydraddoldeb Staff	Sganio'r Gorwel			0	0	Wedi'i ddileu	
RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD								
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Prosiectau Seilwaith (YM17)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	D2	12	0	Gohiriwyd tan 2020/21	
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – Buddsoddi mewn Cyfleusterau (YM32)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	B3	15	0	Gohiriwyd tan 2020/21	

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethu a Rheoli	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol sylweddol (cariwyd drosodd o 2018/19)			2	2	**Sicrwydd Rhesymol**	**Ebrill 2019 (2018/19)**
PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO								
Eiddo	Rheoli Asedau	Sganio'r Gorwel			0	0	Wedi'i ddileu	
TAI								
Tai	Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) (YM29)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	C2	0	0	**Sicrwydd Rhesymol**	**Ebrill 2019 (2018/19)**
Tai	Diwygio Lles – Credyd Cynhwysol ac Incwm Rhenti Tai (YM10)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	C2	8	8	**Sicrwydd Rhesymol**	**Ebrill 2019 (2018/19)**
	Diwygio Lles – Digartrefedd (YM10)				15	4.5	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed diwygiedig)
GWASANAETHAU OEDOLION								
Oedolion	Gofal Iechyd Parhaus	Sganio'r Gorwel	d/b	d/b	0	0	Gohiriwyd tan 2020/21	

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
DYSGU								
Dysgu	Moderneiddio Ysgolion (YM15)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2	C2	0	0	Gohiriwyd tan 2020/21	
	CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO A RAGLENNWYD				**219**[4]	**113.75**		
DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)								
	Gwaith Dilyn i Fyny	Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig sydd angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd ar a gweinyddu 4Action			100	93.75		
	Gwaith Gwrth Dwyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol (NFI)				10	8.75		
	Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	Gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol			25	10	Gwaith ar y gweill	Ebrill 2020 (Targed)

[4] 420 diwrnod yn flaenorol

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
	Cyfeiriadau				10	4.5		
	Cau gwaith y flwyddyn flaenorol				13	13		
	Ardystio Grantiau:	Gofynion Grant			20	20		
	Grant Rhentu Doeth Cymru						**Sicrwydd Sylweddol**	**Medi 2019 (2019/20)**
	Grant Datblygu Disgyblion						**Sicrwydd Sylweddol**	**Medi 2019 (2019/20)**
	Grant Datblygu Disgyblion – Dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal						**Sicrwydd Sylweddol**	**Rhagfyr 2019 (2019/20)**
	Dyfarniad Cyflog Athrawon a Phwysau ar Gostau						**Sicrwydd Sylweddol**	**Rhagfyr 2019 (2019/20)**
	Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad						**Sicrwydd Sylweddol**	**Rhagfyr 2019 (2019/20)**
	Dysgwyr o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsi neu Roma						**Sicrwydd Sylweddol**	**Rhagfyr 2019 (2019/20)**
	Costau Ychwanegol Prydau Ysgol am Ddim oherwydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol						**Sicrwydd Rhesymol**	**Rhagfyr 2019 (2019/20)**

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
	Ymgynghoriaeth Gorfforaethol				70	66.25		
	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau a hunan-asesu				50	38		
	Adolygiad Rheoli				40	26.5		
	Wrth gefn				0	0		
	CYFANSWM				**338**[5]	**280.75**		
DYDDIAU NA ELLIR CODI AMDANYNT (ANGHYNHYRCHIOL)								
	Risg ac Yswiriant				28	26.5		
	Gweinyddiaeth Gyffredinol				48	42		
	Datblygiad Personol ac Adolygiadau, Cyfarfodydd 1 i 1 a Thîm				18	11		
	Rheoli, yn cynnwys ymgysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio				38	30.25		

[5] 440 diwrnod yn flaenorol

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Dyddiad Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 19/01/20	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad Adrodd i Bwyllgor
	Gwyliau, yn cynnwys gwyliau blynyddol, statudol, arbennig a salwch				500[6]	497.75		
	Hyfforddiant a Datblygiad Staff				113	106.5		
	CYFANSWM				**745[7]**	**714**		
	CYFANSWM ADNODDAU ANGENRHEIDIOL				**1302**	**1108**		
	ADNODDAU AR GAEL				**1302[8]**	**1108**		
	DIFFYG ADNODDAU				**0**	**0**		
	CYNHYRCHIANT				**44%[9]**	**36%**		

[6] 182 diwrnod yn flaenorol
[7] 440 diwrnod yn flaenorol
[8] 1,300 diwrnod yn flaenorol, cynyddwyd i 1,420 yn Hydref 2019 a'i ostwng yn Ionawr 2020 oherwydd swyddi gwag
[9] 67% yn flaenorol